

COLEG FFEDERAL CYMRAEG

CYNLLUN GWEITHREDU

CYHOEDDWDYD TACHWEDD 2007
[ARGRAFFIAD DIWYGIEDIG TACHWEDD 2008]

*CYHOEDDWDYD AR RAN CYMDEITHAS YR IAITH GYMRAEG, UMCA, UMCB
AC YMGYRCHOEDD IAITH GYMRAEG UCMC*

AWDURON:

MENNA MACHRETH | MENNAMACHRETH@GMAIL.COM | 07973820580

RHYS LLWYD | NEGES@RHYSLLWYD.COM | 07834556202

CYNNWYS

1. Cyflwyniad

- Cyd-destun gwleidyddol y datblygiadau

2. Sail ac Egwyddorion

3. Cyngor Cynllunio Cenedlaethol

- Rôl, pwrpas a strwythur

- Aelodaeth

4. Uwch Dîm Rheoli

5. Adran Dysgu ac Ymchwil

6. Adran Hyfforddiant

7. Adran Farchnata

8. Ariannu

9. Diwedd glo

Talfyriadau a ddefnyddir:

CFfC – Coleg Ffederal Cymraeg

AUC – Addysg Uwch Cymru

SAU – Sefydliadau Addysg Uwch

CCAUC – Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru

1. CYFLWYNIAD

Cyflwynna'r papur hwn gynllun gweithredu ar gyfer sefydlu Coleg Ffederal Cymraeg (CFfC), un o bolisiau rhaglen llywodraeth *Cymru'n Un* sef y glymblaid rhwng y Blaid Lafur a Phlaid Cymru. Ers i'r cysyniad o CFfC gael ei fabwysiadu fel polisi llywodraeth bu dechrau trafod ynghylch pa fath o strwythur fyddai i'r CFfC ac edrychwyd drachefn ar rai o'r gwahanol gynlluniau a roed gerbron yn y gorffennol. Mae'n fwy priodol nag erioed felly ein bod yn symud ymlaen i ystyried strwythur yr hyn a adwaenwn fel y CFfC a'n gobaith, yn y papur hwn, fydd goleuo rhyw ychydig ar yr hyn y mae'r term yn ei olygu. Mae angen troi'r slogan yn sylwedd.

1.1 Cyd-destun gwleidyddol y datblygiadau

Yn ystod haf 2006 fe gaewyd pob drws ar y gobaith o sefydlu CFfC gyda'r geiriau canlynol:

“Yn wyneb y ffaith fod y Sefydliad Addysg Uwch yn gwrthod y model hwn yn ddiamwys, rydym ni o'r farn y byddai ymyriad ar y raddfa hon ac o'r natur hwn yn anodd i'w gyflwyno yn erbyn dymuniadau'r sector a gallai olygu ansefydlogi'r ddarpariaeth bresennol.”

Wedi cyfnod o ymchwil fe gyhoeddwyd adroddiad ar *Asesiad Opsiynau: Modelau ar gyfer Addysgu Cyfrwng Cymraeg mewn Addysg Uwch* gan Arad Consulting. Nodwyd tri rheswm ganddynt oedd yn rhwystro symud ymlaen tuag at sefydlu CFfC: i) roedd yn rhy gostus, ii) byddai'r CFfC yn creu rhyw fath o gymuned blwyfol roedd *Ymgeisio'n Uwch* yn ei

wrthwynebu, iii) roedd rheolwyr S.A.U. Cymru yn frwd yn ei erbyn. Mae'r rheswm cyntaf yn adlewyrchu diffyg ewyllys wleidyddol y Llywodraeth ar y pryd i ganfod ateb i'r broblem amlwg oedd yn ei hwynebu. Mewn gwirionedd swm cymharol fach y byddai angen ei ychwanegu at gyllideb y sector addysg uwch yng Nghymru er mwyn creu CFfC. Mae'r ail yn camddeall diben creu CFfC yng ngolwg mwyafrif y rhai sy'n galw am hynny, a gwelir agwedd yn yr adroddiad sy'n blwyfol ynddo'i hun yn ei anallu i weld CFfC fel peiriant modern a blaengar i greu cenedl ddwyieithog ac fel arf i brif-ffrydio'r Gymraeg yn y byd gwaith. Yn eironig mae'r trydydd gwrthwynebiad a nodir fel rhwystr i sefydlu CFfC yn brawf pendant o'r angen am sefydliad statudol o'r fath a hynny er mwyn sicrhau nad yw datblygiad Addysg Gymraeg yn cael ei ffrwyno o fewn y Prifysgolion a'r Colegau unigol ond yn hytrach bod angen cynllunio bwriadus ar lefel genedlaethol er mwyn sicrhau gwahaniaeth. Yn wyneb y tri rheswm a nodwyd felly dyma oedd gair olaf yr adroddiad ar yr opsiwn o sefydlu CFfC:

“Nid ydym wedi'n perswadio y byddai Coleg Ffederal yn arwain at gynnydd yn y ddarpariaeth ac felly rydym yn credu y byddai'r risgiau ynghlwm â dilyn y model hwn yn ormodol, o ystyried y buddsoddiad y byddai ei angen.”

Aed ati, wedi i Arad gyhoeddi'r adroddiad, i ddatblygu strategaeth newydd ar gyfer Addysg Uwch cyfrwng Gymraeg – model amgen a ddatblygwyd gan Arad ar sail cydweithio. Croesawn ymdrech y Prifysgolion i ddechrau cydweithio ym maes addysg Gymraeg, ond nid yw'r strategaeth yn mynd i osod y seiliau cadarn sy'n angenrheidiol er mwyn creu darpariaeth ystyrlon, a hynny yn rhannol gan fod angen buddsoddiad llawer mwy sylweddol. Mae'r cynlluniau presennol yn gam ymlaen o'r sefyllfa bum mlynedd yn ôl, ond heb sefydliad annibynnol a chanddo gyllideb sylweddol, bydd unrhyw ymdrechion pontio sy'n mynd rhagddynt ar hyn o bryd yn methu â dwyn ffrwyth.

Arwydd o anallu'r gyfundrefn addysg uwch bresennol i ddatblygu darpariaeth ystyrlon yw'r ffaith bod y targed i gynyddu'r ddarpariaeth Gymraeg wedi ei newid gan y Llywodraeth ei hun. Roedd targed gwreiddiol *Ymgeisio'n Uwch* yn nodi y byddai gofyn i 7% o fyfyrwyr addysg uwch yng Nghymru gael rhyw elfen o ddysgu drwy'r Gymraeg erbyn 2010 (o fan cychwyn o 3.4% ar gyfer 2000/01). Bellach, mae hyn wedi ei newid i 7% o fyfyrwyr *sy'n hanu o Gymru ac sy'n astudio yng Nghymru*: ffordd greadigol o ystumio'r targed fel bod y cynnydd disgwylidig gan SAU Cymru 80% yn is na'r cynnydd disgwylidig gwreiddiol. Dan yr amodau newydd mae rhai o'r sefydliadau eisoes yn cyrraedd targedau'r Llywodraeth sy'n pwysleisio pa mor llugoer a di-gymhelliad y bu agwedd a strategaeth y Llywodraeth i gynyddu'r ddarpariaeth hyd yma.

Dynodwyd arian ychwanegol i'r Ganolfan Datblygu Addysg Cyfrwng Gymraeg, sydd wedi hwyluso cynlluniau Ysgoloriaeth a Chymrodoriaethau cyfrwng Gymraeg yn ogystal â datblygu'r prosiect marchnata “Mantais” sydd yn hyrwyddo'r cyfleon presennol i astudio

drwy'r Gymraeg. Yn ddiweddar trosglwyddwyd y Ganolfan Datblygu Addysg Cyfrwng Cymraeg o awenau Prifysgol Cymru i Addysg Uwch Cymru (AUC neu HEW) a'i fwrdd awdurdodol y Grŵp Sector Addysg Uwch, a fu'n gyfrifol yn ogystal am weithredu'r strategaeth newydd. Cynrychiolir y deuddeg SAU sydd yng Nghymru gan aelod o uwch dîm rheoli pob sefydliad; dechreuodd y Grŵp Sector Addysg Uwch gyfarfod ym misoedd cyntaf 2007 er mwyn creu cynllun manwl o'i dargedau ar gyfer datblygiadau Addysg Gymraeg ledled Cymru am y pum mlynedd nesaf. Cylchredwyd copïau o'r pwyntiau gweithredu a'u hamcanion yn fuan wedi hynny a chynnyrch hynny a lanswyd ar Dachwedd 27ain, 2007.

Ar Fai'r 3ydd 2007 fe gafodd dinasyddion Cymru eu hawl democrataidd i bwysu a mesur polisïau'r gwahanol bleidiau a tharo pleidlais i bennu pwy fydd yn eu llywodraethu am y pedair mlynedd ddilynol. Ni lwyddodd y blaid Lafur i ennill mwyafrif clir i ffurfio Llywodraeth, ac felly daethpwyd i gytundeb â Phlaid Cymru ar sail rhaglen lywodraethol a adwaenwn fel *Cymru'n Un*. Gan fod sefydlu Coleg Ffederal Cymraeg yn rhan o fanifesto Plaid Cymru, fe'i coledwyd, mewn cytundeb â'r Blaid Lafur, yn un o bolisïau rhaglen lywodraeth *Cymru'n Un*. Gwerth nodi wrth basio bod y polisi hwn wedi ei gynnwys yng nghytundeb arfaethedig y *Glymblaid Enfys* hefyd â hynny gan fod sefydlu CFfC i'w ganfod ym manifesto'r Democratiaid Rhyddfrydol yn ogystal.

Er gwaethaf y datblygiadau gwleidyddol - hynny yw llywodraeth newydd wedi ei hethol gan yr etholwyr ac wedi mabwysiadu'r polisi o gefnogi sefydlu CFfC – mae'r SAU ac yn enwedig AUC wedi methu ag ymateb i'r datblygiadau gwleidyddol a'r cyfeiriad polisi newydd gan y llywodraeth. Mae'r cynlluniau sydd gerbron gan AUC yng ngaeaf 2007 yn rhai a luniwyd cyn etholiad Mai 2007 ac nid yw eu cynlluniau yn adlewyrchu'r tro pedol a fu ym mholisi'r llywodraeth parthed y gefnogaeth i sefydlu CFfC. O edrych ar eu cynlluniau, mae AUC fel pe tasent yn anwybyddu'r ffaith y bu etholiad a bod polisi'r llywodraeth wedi newid ar y mater - yr ewyllys wleidyddol bellach o *blaid* sefydlu CFfC. Argymhellwn yn gryf felly i'r llywodraeth weithredu ar frys ac i ochel cyfeirio at gynlluniau cyn-etholiad AUC fel rhan o'r polisi CFfC. Mae'r penderfyniad gwleidyddol wedi ei wneud bellach i gefnogi a sefydlu CFfC; rôl AUC yw ymateb i'r ewyllys wleidyddol ddemocrataidd ac nid ei hanwybyddu a bwrw ymlaen heb ystyried y datblygiadau gwleidyddol diweddaraf.

I'r perwyl hwn yr ydym yn cyflwyno'r papur hwn, er mwyn dangos beth yw Coleg Ffederal Cymraeg a'r modd y deisyfwn iddo gael ei weithredu. Ymhellach, cyflwynwn y papur fel sail ar gyfer cynllun gwireddu polisi'r llywodraeth o sefydlu Coleg Ffederal Cymraeg.

2. SAIL AC EGWYDDORION

Testun ein trafodaeth yw sefydlu corff cyfan gwbl newydd fydd â chyfrifoldeb penodol a'r awdurdod statudol dros ddatblygu ac ehangu Addysg Uwch Cyfrwng Gymraeg. Dylid nodi mai penderfyniad gwleidyddion Llywodraeth y Cynulliad fydd yn rhoi'r awdurdod i sefydlu'r corff newydd. Bydd y corff newydd yn sefydliad ffederal (hynny yw cenedlaethol ac "aml-safle") yn cynnig amrediad eang o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y SAU drwy ariannu swyddi darlithwyr o fewn adrannau i ddysgu drwy'r Gymraeg. Pobl sy'n gwneud coleg, ac felly er y bydd y gymuned ymchwil ar wasgar yn ddaearyddol byddant wedi eu huno yn genedlaethol gan eu gweledigaeth i ehangu ysgolheictod cyfrwng Cymraeg.

2.1 Bydd y CFfC o dan siarter fydd yn ei warantu fel sefydliad ac awdurdod a statws fydd yn amlinellu ei ddatganiad pwrpas yn blaen ac fe fydd yn gweithio i wireddu'r amcanion hynny.

2.2 Caiff y strwythur newydd hwn ei ariannu'n uniongyrchol ac ar wahân i weddill cyllid AUC. Mae sicrhau ffrwd ariannu ar wahân yn egwyddor gwbl sylfaenol er mwyn gwarantu na fydd cyllid i ddatblygu'r Gymraeg mewn cystadleuaeth gydag unrhyw fuddiannau arall yn enwedig buddiannau'r SAU eraill. Un o hanfodion sefydlu CFfC yw dynodi cronfa annibynnol ar gyfer y corff er mwyn monitro'r arian sy'n mynd tuag at Addysg Gymraeg a gweithredu'r coleg. Dylai'r gronfa hon fod o dan ofal CCAUC (HEFCW) ond ni fydd yn cael ei chymysgu â gweddill arian Addysg Uwch.

2.3 Y CFfC yn ganolog a fydd yn gwneud penderfyniadau terfynol parthed yr hyn a ddysgir yn Gymraeg ac ymhle y lleolir y ddarpariaeth. Enw'r pwyllgor hwn fydd y Cyngor Cynllunio Cenedlaethol. Gan ei fod yn endid newydd annibynnol ar wahân gall wneud penderfyniadau a hynny mewn modd gwrthrychol gan nad yw'n cynrychioli SAU unigol dim ond lles cyffredinol datblygu addysg Gymraeg ar lefel genedlaethol.

2.4 Gan y bydd y CFfC yn cael ei ariannu yn uniongyrchol, bydd yn atyniadol i'r Prifysgolion fod yn rhan o brosiectau'r CFfC gan y byddai'n gyfle iddynt wneud cais am ddosraniad o grant blynyddol y CFfC. Bydd SAU yn gwneud cais ar ran adran arbennig i gynnal neu ehangu darpariaeth cyfrwng Cymraeg ac yn derbyn cytundeb os byddant yn llwyddiannus. Y gobaith yw y gellir osgoi sefyllfa lle bydd darpariaeth Gymraeg yn dibynnu ar fymrwyr darlithydd sy'n siarad Cymraeg o fewn yr adran. Credwn y bydd cystadleuaeth o du'r Prifysgolion am gytundebau y CFfC yn codi safon ac yn gwneud datblygu CFfC yn atyniadol ac yn effeithlon i'r Prifysgolion.

2.5 Yn ogystal â'r egwyddor o gyllideb annibynnol bydd y CFfC yn rhydd i ddatblygu ei ethos, addysg a ffynonellau cyllid ei hun. Prif ffocws y sefydliad hwn yw cynyddu dysg cyfrwng Cymraeg er budd a ffyniant y genedl yn lleol a chenedlaethol, y sail hwn fydd yn gyrru ei amcanion a'i ddatblygiad unigryw.

2.6 Bydd myfyrwyr sydd am astudio drwy'r Gymraeg yn cofrestru yn eu SAU fel pob myfyriwr arall, a byddant yn ennill graddau eu prifysgol unigol neu raddau Prifysgol Cymru yn ôl arfer pob sefydliad gyda myfyrwyr sy'n astudio yn Saesneg. Yn wyneb hyn nid yw'n ofynnol i'r CFfC fod yn gorff dyfarnu graddau.

2.7 Er y presenoldeb gweinyddol ni fydd gan y CFfC adnoddau traddodiadol prifysgol ddaearyddol. Felly bydd myfyriwr yn derbyn yr un breintiau a phob myfyriwr arall yn y Brifysgol honno a chael defnydd llawn o neuaddau preswyl, llyfrgell, labordai a chyfrifiadurol y sefydliadau hynny.

2.8 Bydd gan y CFfC yn ogystal â'i phrif ganolfan weinyddol, ganolfannau gweladwy ym mhob SAU unigol lle bydd y weinyddiaeth angenrheidiol yn cael ei weithredu. Y Swyddogion Canghennau fydd yn cydlynu gwaith y CFfC yn y colegau a'r Prifysgolion unigol.

2.9 Er mwyn gweld datblygu trwch o staff dysgu a thiwora cyfrwng Cymraeg newydd rhagwelwn barhad a datblygu ar y cynlluniau ysgoloriaethau a chymrodoriaethau sydd eisoes yn bodoli.

3. CYNGOR CYNLLUNIO CENEDLAETHOL

3.1 *Rôl, pwrpas a strwythur y Cyngor*

3.1.1 Dyma fydd awdurdod terfynol y CFfC a bydd yn goruchwylio a monitro holl waith a chyfrifoldebau'r CFfC.

3.1.2 Ei brif ddyletswydd fydd pennu blaenoriaethau polisi'r CFfC yn yr hir dymor a'r tymor byr drwy nodi pa faint o adnoddau y dylid eu buddsoddi ym mha bynciau ac ymhle yn unol ag argymhellion yr Uwch Dîm Rheoli ond hefyd yn unol â gweledigaeth wrthrychol y Cyngor.

3.1.3 Bydd cyfrifoldeb gan y cyngor a'i gadeirydd i adrodd am ddatblygiadau a chynlluniau arfaethedig i Weinidog Addysg a Phwyllgor Addysg y Cynulliad Cenedlaethol ond ni fydd yn atebol mewn modd goddrychol oblegid mae annibyniaeth academaidd y Coleg rhag ymyrraeth wleidyddol yn egwyddor sylfaenol bwysig. Yn hyn o beth mae'n werth nodi na fydd yn adrodd i'r Gweinidog *via* AUC ond yn hytrach yn uniongyrchol. Credir y byddai'n fanteisiol i'r cadeirydd *beidio* â bod yn aelod gweithredol o dîm rheoli'r CFfC er mwyn cadw gwrthrychedd i awdurdod y cyngor.

3.1.4 Penodir y Cadeirydd yn unol â threfn arferol y Cynulliad Cenedlaethol o

benodi cadeiryddion i gyrrff cyhoeddus.

3.2 Aelodaeth y Cyngor

3.2.1 Er y bydd yn annibynnol ar AUC credir y byddai'n fanteisiol i gadeirydd AUC fod yn aelod o Gyngor Cynllunio Cenedlaethol y CFfC.

3.2.2 Dylid cael cynrychiolydd o gyngor CCAUC i eistedd ar y cyngor.

3.2.3 Bydd aelodau Uwch Dîm Rheoli'r y CFfC yn aelodau o'r cyngor yn ogystal â'r swyddogion canghennau. Y rhain fydd aelodau gweithredol y cyngor.

3.2.4 Gellid cyfethol aelodau eraill o staff y CFfC i eistedd ar y cyngor lle gwelir hynny'n addas.

3.2.5 Dylid ceisio cael cynrychiolydd i bob disgyblaeth academiaidd ar y cyngor – cynrychiolwyr y paneli rhwydwaith.

3.2.6 Dylid cyfethol aelodau i'r cyngor o'r gymdeithas sifig Gymreig yn ehangach i gynrychioli holl rhan ddeiliaid y CFfC: e.e. cynrychiolaeth i'r myfyrwyr, cynrychiolaeth i rieni disgyblion/myfyrwyr addysg Gymraeg, cynrychiolaeth i benaethiaid ysgolion uwchradd fydd yn bwydo'r CFfC, cynrychiolaeth i ddarpar gyflogwyr graddedigion y CFfC.

4. UWCH DÎM RHEOLI

4.1 Cyfarwyddwr

4.1.1 Y Cyfarwyddwr fydd yn bennaf gyfrifol am weithredu polisiau ac argymhellion y Cyngor Cynllunio Cenedlaethol rhwng eisteddiadau.

4.1.2 Y Cyfarwyddwr fydd yn derbyn argymhellion y cyfarwyddwr eraill a'r swyddogion cangen ac yn eu cyflwyno i'r Cyngor Cynllunio Cenedlaethol.

4.1.3 Mewn partneriaeth â'r swyddogion cangen y Cyfarwyddwr fydd lladmerydd y CFfC o safbwynt y SAU unigol.

4.2 Cyfarwyddwr Cyllid

4.2.1 Y Cyfarwyddwr Cyllid fydd yn cydlynu gweinyddu cronfa gyllid flynyddol y CFfC.

4.2.2 Bydd y Cyfarwyddwr Cyllid yn monitro a hwyluso ysgoloriaethau a chytundebau â gweddill SAU Cymru.

4.2.3 Y Cyfarwyddwr Cyllid fydd a chyfrifoldeb am ddeialog â'r Gweinidog Addysg a'r Gweinidog Cyllid parthed grant blynyddol y CFfC.

4.3 Cyfarwyddwr Dysgu ac Ymchwil

4.3.1 Y Cyfarwyddwr Dysgu ac Ymchwil fydd yn asesu a gwerthuso pa anghenion sydd ym mha ddisgyblaethau parthed yr angen i gynnal a datblygu dysgu cyfrwng Cymraeg ar ran y Cyngor Cynllunio Cenedlaethol.

4.3.2 Bydd y Cyfarwyddwr Dysgu ac Ymchwil yn cydlynu, mewn partneriaeth â'r SAU, datblygu arloesol dysgu cyfrwng Cymraeg mewn disgyblaethau sydd heb ddechrau darparu modiwlau neu gyrsiau hyd yma.

4.3.3 Bydd y Cyfarwyddwr Dysgu ac Ymchwil yn monitro safon ac ansawdd y dysgu ac ymchwil cyfrwng Cymraeg yn genedlaethol ac yn cysoni.

4.4 Cyfarwyddwr Marchnata

4.4.1 Y Cyfarwyddwr Marchnata fydd yn cydlynu strategaeth farchnata genedlaethol i addysg Gymraeg ac yn goruchwyllo cynlluniau marchnata cyfrwng Cymraeg holl sefydliadau Addysg Uwch Cymru.

4.4.2 Yn ogystal â strategaeth farchnata genedlaethol draws-sefydliadol bydd y Cyfarwyddwr Marchnata yn hwyluso yn ymarferol yn ogystal ag yn ariannol os bydd galw marchnata cyfrwng Cymraeg sefydliadau unigol.

4.4.3 Bydd y Cyfarwyddwr Marchnata yn cydlynu strategaeth i gynyddu'r galw ymysg disgyblion uwchradd Cymru am addysg uwch Cyfrwng Cymraeg.

4.5 Cyfarwyddwr Hyfforddiant

4.5.1 Y Cyfarwyddwr Hyfforddiant fydd yn cydlynu'r gwaith o hyfforddi darlithwyr a darpar ddarlithwyr cyfrwng Cymraeg yn genedlaethol.

4.5.2 Bydd y Cyfarwyddwr Hyfforddiant yn edrych i ddatblygu dulliau dysgu amgen a blaengar.

4.6 Swyddogion Canghennau

4.6.1 Y Swyddogion Canghennau fydd cynrychiolwyr statudol y CFfC yn y SAU unigol.

4.6.2 Bydd y Swyddogion Canghennau yn goruchwyllo a hwyluso datblygu a gweithredu polisiâu'r CFfC oddi mewn i'r Prifysgolion a'r Colegau unigol.

4.6.3 Bydd y Swyddogion Canghennau yn goruchwyllo'r gwaith gweinyddol wrth weithredu polisïau a strategaethau'r CFfC o fewn y SAU.

4.6.4 Lleolir swyddfeydd y Swyddogion Canghennau oddi fewn i'r sefydliadau unigol ac nid yn yr un ganolfan â gweddill yr Uwch Dîm Rheoli.

4.6.5 Rhagwelir y bydd cyflogau a chostau gweinyddol swyddfeydd y Swyddogion Canghennau yn cael ei ariannu ar y cyd rhwng y CFfC a'r SAU unigol er mwyn cadw cydbwysedd diddordeb buddiannau yn iach ac yn adeiladol.

4.6.6 Bydd angen Swyddog Cangen ymhob sefydliad:

- Athrofa Addysg Uwch Abertawe
- Athrofa Gogledd Ddwyrain Cymru
- Athrofa Prifysgol Cymru Caerdydd (UWIC)
- Coleg Cerdd a Drama Cymru
- Coleg y Drindod, Caerfyrddin
- Prifysgol Abertawe
- Prifysgol Aberystwyth
- Prifysgol Bangor
- Prifysgol Caerdydd
- Prifysgol Cymru, Casnewydd
- Prifysgol Cymru, Llanbedr Pont Steffan
- Prifysgol Morgannwg

4.6.7 Bydd swmp gwaith y gwahanol swyddfeydd yn amrywio o sefydliad i sefydliad, a bydd angen amrywio adnoddau yn ôl llwyth gwaith y canghennau. Mae'n amlwg y bydd angen mwy nag un swyddog mewn rhai sefydliadau. Fel y nodwyd ym mhwynt 4.6.5, y nod fyddai rhannu cost swyddfeydd y canghennau hyn rhwng y CFfC a'r SAU, felly mewn rhai achosion mae'n debyg y byddai modd rhoi swyddogion y canghennau yn yr unedau sy'n bodoli eisoes yn y SAU er mwyn ateb gofynion Deddf yr Iaith Gymraeg 1993.

5. ADRAN DYSGU AC YMCHWIL

5.1 Bydd yr adran hon dan arweiniad Cyfarwyddwr Dysgu ac Ymchwil y CFfC a fydd yn asesu sut y dylid blaenoriaethu datblygu addysg cyfrwng Cymraeg ac a fydd yn cyflwyno'r dystiolaeth i'r Cyngor Cynllunio Cenedlaethol.

5.2 Bydd yr Adran Dysgu ac Ymchwil yn:

5.2.1 Derbyn ceisiadau wrth SAU Cymru am gyllid i ddatblygu agwedd o'u darpariaeth Cymraeg, ac yn cyflwyno'r dystiolaeth a'i argymhellion i'r Cyngor Cynllunio Cenedlaethol.

5.2.2 Gweinyddu ysgoloriaethau ymchwil cyfrwng Cymraeg a'r cymrodoriaethau dysgu a ddyfermir gan y Cyngor Cynllunio Cenedlaethol.

5.2.3 Comisiynu prosiectau a strategaethau mewn disgyblaethau sy'n llai blaengar eu hagwedd tuag at ddysgu cyfrwng Cymraeg. Bydd yr Adran Dysgu ac Ymchwil yn denu sylw adrannau academiaidd o fewn SAU at y cyllid sydd ar gael iddynt ddatblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg.

5.2.4 Gwahodd ceisiadau grantiau ymchwil ôl-ddoethuriaethol cyfrwng Cymraeg at ddiben paratoi cyhoeddi ffrwyth ymchwil cyfrwng Cymraeg.

5.2.5 Monitro a gwerthuso ansawdd academiaidd dysgu cyfrwng Cymraeg yn

genedlaethol yn ôl safonau disgwylidig y sector Addysg Uwch. Bydd pwyllgor arbennig yn asesu cynllun y modiwl a gyflwynir gan gyd-gysylltydd y modiwl cyn ei argymhell ar gyfer ei ddysgu.

5.2.6 Goruchwyllo holl fodiwlau a chysiau'r CFfC ac yn cynorthwyo darlithwyr wrth iddynt fynd ati i gynllunio modiwlau newydd.

5.2.7 Sicrhau bod y dull dysgu yn addas ac os defnyddir dulliau cyfunol ei fod yn bwrpasol ac yn hwyluso'r dysgu rhyng-brifysgol.

5.2.8 Datblygu modiwlau arloesol cyfrwng Cymraeg rhyng-adrannol o fewn prifysgolion a rhwng SAU Cymru a rhyng-ddisgyblaethu lle bo'n briodol.

5.2.8.1 Byddant yn cydweithio â'r Adran Hyfforddi i weld lle y gellir pontio rhwng disgyblaethau er mwyn creu cysiau deinamig a fydd yn ateb gofynion israddedigion; yn ogystal bydd mewnbwn yr Adran Farchnata yn hollbwysig yma i greu cysiau atyniadol ar gyfer diddordebau a ffasiynau academaidd myfyrwyr presennol ac anghenion y byd gwaith yn ychwanegol at fodiwlau academaidd traddodiadol.

5.2.8.2 Gellid edrych ar y posibilrwydd o gynlluniau secondiad o sefydliadau cyhoeddus eraill neu'r sector breifat lle bydd arbenigwyr all gyflwyno eu harbenigaeth trwy gyfrwng y Gymraeg yn cael eu pen-chwilota (head-hunting) er diben cyfrannu i'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg. Er enghraifft gellid pen-chwilota am arbenigwr adnoddau dynol yng nghyrff cyhoeddus Cymru yna ei secondio i ddysgu ar y pwnc hwnnw trwy gyfrwng y Gymraeg ar sail modiwl ar y tro. Fel enghraifft arall gellid pen-chwilota am arbenigwyr o fyd y gyfraith gallasai gael eu secondio i gyfrannu i'r dysgu yn eu priod faes.

5.2.9 Datblygu modiwlau *generig* cyfrwng Cymraeg, e.e. modiwlau gloywi iaith, dulliau ymchwil a modiwlau aml-ddisgyblaethol. Pwrpas y rhain fydd rhoi hyder i fyfyrwyr astudio drwy gyfrwng y Gymraeg ac agor y drws i ddysgwyr yn ogystal, a'u defnyddio fel gris i hybu'r myfyrwyr i gymryd modiwlau eraill dan nawdd y CFfC.

6. ADRAN HYFFORDDIANT

6.1 Dyma faes y bydd angen datblygiad eang a hir-dymor er budd cynaladwyedd a momentwm y CFFC. Prif faes gweithredol yr Adran Hyfforddiant fydd cefnogaeth i ddeiliaid yr ysgoloriaethau a chymrodoriaethau yn ogystal â darlithwyr hŷn gan ddarparu gweithdai a chyrsiau ar amryw agweddau o'u gwaith.

6.2 Bydd yr Adran Hyfforddiant yn:

6.2.1 Cynnig hyfforddiant mewn dulliau ymchwil a datblygu sgiliau i ddeiliaid yr ysgoloriaeth a chynnig y gwasanaeth hwn i fyfyrwyr ymchwil eraill ar hyd Cymru sy'n astudio ac yn cyhoeddi ymchwil cyfrwng Cymraeg.

6.2.2 Cydweithio â'r Adran Ymchwil a Dysgu i geisio creu pontydd rhwng adrannau gwahanol ac archwilio sut gellir cyfuno modylau/pynciau a'u rhyng-gysylltu i ateb gofynion a diddordebau myfyrwyr.

6.2.3 Cynnig cefnogaeth gyffredinol a phenodol i staff darlithio gan weithio i greu cymuned o addysgwyr ac ymchwilwyr cyfrwng Cymraeg eangfrydig a blaengar.

6.2.4 Trefnu cynadleddau ymchwil ar gyfer gwahanol ddisgyblaethau er mwyn rhannu syniadau ac arddangos yr ymchwil a'r dysgu cyfrwng Cymraeg.

6.2.5 Meithrin cysylltiadau â chyrrff a chwmnïau, sector breifat a chyhoeddus, fydd â

diddordeb comisiynu ymchwil arbenigol fydd o ddiddordeb iddyn nhw. Fe fydd yr Adran Hyfforddiant yn cydweithio â'r Adran Ymchwil a Dysgu i hybu partneriaethau o'r fath rhwng y CFfC a chyrff cyhoeddus a chwmnïau preifat.

6.2.5.1 Bydd yr adran hon (mewn partneriaeth â'r Adran Gyllid) yn ymgeisio am arian oddi wrth Cynulliad Cenedlaethol Cymru, awdurdodau lleol, cyrff cyhoeddus a phreifat yn cynnig i'r CFfC ymchwilio mewn meysydd o ddiddordeb iddynt. Mae'r agwedd hon yn pwysleisio ymwybyddiaeth y coleg o'i rôl yn darparu gwybodaeth ac ymchwil arbenigol i wasanaethu Cymru.

6.3 Dulliau dysgu blaengar

6.3.1 Bydd yr Adran Hyfforddiant yn edrych i ddatblygu dulliau dysgu blaengar cyfrwng Cymraeg.

6.3.2 Bydd y CFfC yn comisiynu ymchwil i mewn i'r amrywiol gyfryngau newydd o ddysgu gan edrych ar fodelau o wledydd eraill ac yn enwedig cenhedloedd sydd ag ieithoedd lleiafrifol.

6.3.3 Bydd y CFfC yn flaengar ac ni fydd yn ofni arbrofi gyda chyfryngau a threfniannau newydd:

6.3.3.1 Dylid ymchwilio i ddysgu cyfunol wrth gynllunio dulliau dysgu modiwl. Bydd yr Adran Hyfforddiant yn argymhell opsiynau i'r Adran Ymchwil a Dysgu ynghylch dull o ddysgu modiwl sydd, er enghraifft, yn cael ei rannu rhwng dwy adran mewn sefydliadau gwahanol. Dylid cynnwys y darlithwyr yn y broses hon a chymryd i ystyriaeth adnoddau'r SAU perthnasol..

6.3.3.2 Yr Adran Hyfforddiant fydd yn datblygu syniadau newydd a fydd yn apelio at fyfyrwyr e.e. treulio semester / blwyddyn mewn Prifysgol arall. Daeth y syniad o dreulio cyfnod yn astudio mewn awyrgylch wahanol yn boblogaidd iawn yn ddiweddar, felly gellir cynnig i fyfyrwyr astudio cyrsiau cyfrwng Cymraeg mewn Prifysgol wahanol yng Nghymru am semester neu flwyddyn i ehangu eu profiad o ddysgu cyfrwng Cymraeg.

6.4 Gyrfaoedd

6.4.1 Bydd yr Adran Hyfforddiant yn datblygu cyfleon profiad gwaith i fyfyrwyr er mwyn iddynt gael cyfle i ddatblygu sgiliau. Drwy hyn gellid dangos i fyfyrwyr fod galw ymhlith cyflogwyr am staff sy'n meddu sgiliau i weithio drwy'r Gymraeg.

6.4.2 Yn sgîl profiad a gweithgarwch yr Adran Hyfforddiant yn cydweithio ag asiantaethau allanol byddant yn ceisio hybu cyrff / cwmnïau i noddi myfyrwyr neu gynlluniau *dysgu yn y gweithle* arbennig.

6.4.3 Ceir enghraifft o hyn eisoes sef cynllun *AmNawdd* (cynllun noddi'r Cyngor Cefn Gwlad gynt) sy'n noddi nifer o fyfyrwyr bob blwyddyn i astudio drwy gyfrwng y Gymraeg.

6.4.4 Bydd yr Adran Hyfforddiant yn hybu mentrau tebyg gan gynnwys profiad yn y gweithle a swyddi dan hyfforddiant i raddedigion. Bydd cydweithio agos gyda'r Adran Gyllid a'r Adran Farchnata i ddenu cyllid o'r sector breifat a chyrff cyhoeddus eraill i ariannu prosiectau o'r fath.

7. ADRAN FARCHNATA

Bydd yr Adran Farchnata:

7.1 Llunio strategaeth eang a blaengar fydd yn cydweithio ag:

- Ysgolion
- Colegau a Phrifysgolion unigol
- Asiantaethau Gyrfaoedd Cymru
- Cwmnïau yn y sector breifat a chyrrff cyhoeddus sydd am gyflogi a datblygu graddedigion cyfrwng Cymraeg

7.2 Yn mynd i'r afael â'r rhesymau tu ôl i ddiffyg parodrwydd nifer fawr o ddisgyblion uwchradd cyfrwng Cymraeg Cymru i ddewis astudio drwy gyfrwng y Gymraeg ar lefel Prifysgol.

7.3 Yn cynnal cyfresi blynyddol o grwpiau trafod marchnata addysg cyfrwng Cymraeg yn ysgolion uwchradd Cymru.

7.4 Yn dyfeisio dulliau ac ymgyrch farchnata benodol ac arbenigol i ddenu dysgwyr Cymraeg i astudio cyrsiau neu ran o'u cyrsiau drwy gyfrwng y Gymraeg.

7.5 Yn cydweithio â'r Adran Hyfforddiant i gynyddu'r ymwybyddiaeth bod sgiliau dwyieithog o fudd i raddedigion yn eu gyrfaoedd ac yn y byd gwaith.

7.6 Yn cydweithio ag adrannau marchnata SAU unigol i roi darlun clir i ddarpar fyfyrwyr parthed ble i astudio beth drwy gyfrwng y Gymraeg.

7.6.1 Bydd gan yr Adran Farchnata gyfrifoldeb i egluro beth yw rôl y CFfC o fewn unrhyw gynlluniau.

7.7 Yn cydweithio â Chynghorau Sir i gael mynediad i holl ysgolion uwchradd Cymru i gyflwyno rhinweddau astudio'n Gymraeg a hynny nid yn unig i ddisgyblion chweched dosbarth ond i ymweld yn achlysurol a phob grŵp oedran mewn ysgol uwchradd i greu'r ymwybyddiaeth drwy gydol eu cyfnod mewn addysg uwchradd o rinweddau addysg Gymraeg.

7.7.1 Wrth reswm bydd natur strategaethau marchnata i grŵp oedran 11-15 (canolbwyntio ar rinweddau ag egwyddorion) yn wahanol i strategaeth marchnata i grŵp oedran 16-18 (cyflwyno'r ddarpariaeth yn ogystal â phwysleisio rhinweddau ac egwyddorion).

7.8 Yn cynnal gwaith ymchwil i ganfod pa fath o deitlau/pynciau sydd o ddiddordeb i fyfyrwyr a chyflwyno'r canfyddiadau i Adran Dysgu ac Ymchwil y CFfC er mwyn ystyried datblygu dysgu Cymraeg yn y meysydd hynny.

8. ARIANNU

8.1 Mae'n egwyddor sylfaenol bod y CFfC yn cael ei ariannu'n uniongyrchol gan y Llywodraeth (drwy CCAUC).

8.1.1 Dim ond un ystyriaeth ymysg llawer yw Addysg Gymraeg i'r Prifysgolion, CCAUC, AUC, ac nid yw'n iachus i Addysg Gymraeg fod mewn cystadleuaeth am sylw a blaenoriaeth.

8.1.2 O gael ei ariannu yn uniongyrchol ac nid *via* AUC ni fyddai datblygu Addysg Gymraeg mewn cystadleuaeth am sylw yn erbyn buddiannau lu eraill y SAU.

8.1.3 Hyd yn oed pe byddai cyllid Addysg Gymraeg wedi ei glustnodi yn nwylo AUC ni fyddai datblygiadau breision yn digwydd o reidrwydd oherwydd hyd yn oed pe na fyddai cystadleuaeth am gyllid byddai datblygu Addysg Gymraeg yn parhau mewn cystadleuaeth a buddiannau lu eraill y sector o ran blaenoriaeth a strategaeth gweithredu.

8.1.4 Oherwydd mai AUC yw llais unedig y Prifysgolion ac mai'r Prifysgolion yw AUC ni all y Prifysgolion/AUC ddatblygu strategaethau Addysg Gymraeg o safle gwrthrychol fel y gallasai'r CFfC. Rhaid cydnabod nad yw datblygu dysgu cyfrwng Cymraeg o reidrwydd o fudd i'r Prifysgolion ym mhob achos felly rhaid cael corff mwy gwrthrychol nag AUC i ddwyn cyfrifoldeb dros y datblygu.

8.2 Er mwyn creu strwythur o werth mae angen buddsoddiad ystyrlon, tua £20 miliwn o'r cychwyn cyntaf. Yn annatod yn wyneb arafwch SAU o ran ymateb i unrhyw newid, mae'n debyg y bydd datblygiadau yn araf i ddechrau, yn enwedig mewn sefydliadau llai eu darpariaeth ar hyn o bryd, ac felly bydd gofyn am lawer o adnoddau yn syth ar ôl sefydlu'r CFfC er mwyn rhoi cychwyn ar brosiectau uchelgeisiol a fydd yn sbarduno gwaith y CFfC yn y blynyddoedd wedyn, pan fydd costau rhedeg y CFfC yn flynyddol yn sefydlogi, byddem yn tybio, ar yr un lefel o ryw £20 miliwn.

8.2.1 Byddai'r £20 miliwn hwn yn parhau i fod yn is na 3% o incwm cyffredinol y sector sydd dros £700 miliwn. Er bod hynny'n godiad sylweddol o'r cyllid presennol tuag at Addysg Uwch Cyfrwng Cymraeg, o ran canran o'r gyllideb gyffredinol mae'n parhau i fod yn ganran fechan, ac yn bris bychan iawn am y cyfraniad hanfodol y bydd yn ei wneud o ran creu Cymru ddwyieithog.

8.2.2 Wrth brisio Maniffesto Plaid Cymru ar gyfer etholiad 2007 argymhellwyd gan gyllidwyr proffesiynol y byddai patrwm cost sefydlu a datblygu CFfC yn £4.2 miliwn yn cynyddu hyd at £12.6 miliwn erbyn y bedwaredd flwyddyn. Ond ein argymhelliad pendant ni yw y byddai angen cyllideb o £20 miliwn.

8.3 Rhaid i'r Llywodraeth benderfynu ar unwaith o ble daw'r cyllid yma i weithredu'r cynllun – mae hwn, yn ei hanfod, yn benderfyniad gwleidyddol cymaint ag ydyw o un cyllidol ac addysgol.

8.3.1 Credwn y bydd yn rhaid i'r arian ddod fel cyllid ychwanegol i'r sector oherwydd y byddai toriadau mewn meysydd eraill o fewn Addysg Uwch er mwyn cyllido'r strategaeth yma yn amhoblogaidd.

8.3.2 Derbynnir fodd bynnag, mewn realiti, y bydd y cyllid yn dod o ddau ffynhonnell – peth o'r gyllideb bresennol a pheth o gyllideb ychwanegol benodol.

8.4 Bydd yr Adran Gyllid dan arweiniad y Cyfarwyddwr Cyllid ac mewn partneriaeth â'r Cyfarwyddwr Hyfforddiant a'i adran yn ceisio denu cyllid ychwanegol o'r sector breifat ac o gyrff cyhoeddus eraill i ariannu prosiectau a myfyrwyr ymchwil cyfrwng Cymraeg.

8.5 Bydd y CFfC yn penodi a chyflogi darlithwyr yn uniongyrchol drwy ddyfarnu grantiau i adrannau Prifysgolion unigol sy'n ymgeisio am nawdd i ddatblygu eu darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Bydd yr Adran Gyllid mewn partneriaeth â'r Swyddogion Canghennau yn gyfrifol am fonitro'r defnydd a wneir o'r cyllid.

9. DIWEDDGLO

Dyna felly ein gweledigaeth a'n cynllun ni o ran beth a olygir wrth Goleg Ffederal Cymraeg. Nid yw'r prif egwyddorion, sef (i) y syniad o gorff statudol newydd er budd datblygu Addysg Gymraeg yn cael (ii) ffrwd arian sylweddol ac annibynnol, yn syniadau newydd ond efallai bod rhai manylion yn gyfraniadau newydd i'r drafodaeth. Hyderwn fod y llywodraeth wrth fabwysiadu'r polisi o Goleg Ffederal Cymraeg o leiaf yn derbyn y ddwy egwyddor graidd ond efallai heb ystyried y ffurf a'r strwythur. Mae'r papur hwn felly yn ymgais i roi cig ymarferol ar esgyrn egwyddorol.

Rydym yn galw ar y llywodraeth i fabwysiadu'r model hwn ac i wrthod derbyn bod cynlluniau AUC unrhyw beth tebyg i Goleg Ffederal Cymraeg oherwydd nad yw eu cynlluniau yn arddel y ddwy egwyddor sylfaenol heb sôn am fân strategaethau eraill sy'n cael eu trafod yn y papur hwn. Cydnabyddwn mai penderfyniad gwleidyddol cymaint ag un ieithyddol ac addysgol fydd sefydlu Coleg Ffederal Cymraeg. Oherwydd hynny ewyllys wleidyddol gyda'r llywodraeth yn arwain a gosod allan yr egwyddorion ac yna gadael i'r sector ymateb a dyfeisio strwythur, nid annhebyg i'r un sydd gerbron yn y papur hwn, fydd rhaid digwydd. Llywodraeth wan heb ewyllys wleidyddol bydd yn gwneud tro pedol arall ac yn peidio â sefydlu Coleg Ffederal Cymraeg wedi'r cyfan.

Mae sefydlu Coleg Ffederal Cymraeg fel sydd wedi ei amlinellu yn y papur hwn yn rhan hanfodol o'r prosiect mawr ehangach o godi Cymru'n genedl ddwyieithog, lewyrchus a hunan-hyderus fydd yn medru chwarae ei phriod rhan yn nheulu cenhedloedd y byd.